



Annwyl ffrindiau,

Croeso i becyn cysgodi Gwobrau Tir na n-Og 2019. Gobeithio'n wir y cewch flas ar ddarllen a thrafod y llyfrau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer eleni. Mae gwybodaeth ychwanegol am y teitlau a'r awduron yn y pecyn. Rhowch wybod i ni beth yw eich barn am y llyfrau, anfonwch unrhyw luniau neu dystiolaeth at y cyfeiriad cllc.plant@llyfrau.cymru a phwy a wŷr, efallai y cewch gyfle i holi'r awduron wyneb yn wyneb!

Pwysig – Mae dau deitl ar y rhestr wedi eu hanelu at oedolion ifanc. Gallwch ddewis eu hepgor o'r cysgodi neu gynnig y teitlau i gyn-ddisgyblion neu athrawon i'w trafod!

Helen Jones, Pennaeth Llyfrau Plant a Phobl Ifanc
Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB

cllc.plant@llyfrau.cymru

@LlyfrDaFabBooks



Saith Ffaith

1. Beth yw Gwobrau Tir na n-Og?

Gwobrau ar gyfer y llyfrau gorau i blant a phobl ifanc.

2. Pwy sy'n gyfrifol am drefnu'r gwobrau?

Cyngor Llyfrau Cymru.

3. Beth yw pwrpas y gwobrau?

Annog plant i brynu a darllen llyfrau er mwyn pleser.

4. Pwy sy'n penderfynu?

Panel o feirniaid.

5. Sawl gwobr sydd?

Cyflwynir dwy wobr Gymraeg yn flynyddol, y naill ar gyfer oedran cynradd a'r llall ar gyfer oedran uwchradd.

6. Pryd mae'r gwobrau yn cael eu rhoi?

Cyhoeddir y rhestr fer tua mis Chwefror. Yna cyhoeddir yr enillwyr mewn seremoni arbennig ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd.

7. Sut mae cysgodi'r gwobrau?

Darllen y llyfrau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer, eu trafod, yna penderfynu ar enillwyr.

CHI yw beirniaid answyddogol y gystadleuaeth!



Ble Mae Boc? – Huw Aaron

Cyhoeddwr: Y Lolfa

Fformat: Clawr Meddal, 297x210 mm, 32 tudalen

Pris: £4.99

ISBN: 9781784616625

Crynodeb

Llyfr lliwgar 24 tudalen, maint A4, addas ar gyfer plant ac oedolion, yn cynnwys 10 llun tudalen ddwbl. Bydd pob taenlen yn dangos golygfa lawn dop, gyda'r nod o ddod o hyd i Boc, y ddraig fach goch, sy'n cuddio ym mhob llun. Mae cyfle i chwilio am bethau eraill yn y lluniau hefyd, yn ogystal â thrafod a holi cwestiynau rhwng plant a'i gilydd, a rhwng rhiant a phlentyn.

Am yr awdur

Mae Huw Aaron yn gartwnydd a darlunydd amryddawn. Mae ei sgriblau i'w gweld mewn nifer o lyfrau plant ac oedolion ac ar ffurf stribedi comic, ac mae'n cyfrannu'n rheolaidd i gylchgronau *Private Eye*, *The Oldie* a *The Spectator*. Mae hefyd wedi ysgrifennu a darlunio nifer o lyfrau jôcs a phosau, yn ogystal â chreu dwy set o Gardiau Brwydro (Atebol). Huw yw golygydd *Mellten*, cylchgrawn hwyliog i blant sy'n gyfuniad o storïau doniol, posau, jôcs, cystadlaethau, a chyngor ar sut i greu comics a chartwnau eich hun. Mae'n byw gyda'i deulu yng Nghaerdydd.

Hefyd gan yr awdur

Cardiau Brwydro: *Chwedlau ac Arwyr Cymru – Y Mabinogi* (9781912261222)


Cardiau Brwydro: *Chwedlau ac Arwyr Cymru – Bwystfilod Hudol* (9781910574881)

Mwy o Jôcs y Lolfa (9781847719768)

Llyfr Hwyl y Lolfa (9781847717047)

Trafodwch

1. Beth yw eich barn am y clawr?
2. Sut fyddech chi'n disgrifio'r llyfr i ffrind?
3. Beth yw eich barn am y cynnwys?
4. Beth oeddech chi'n ei hoffi orau am y llyfr?
5. Beth hoffech ei newid am y llyfr?
6. Hoffech chi rannu'r llyfr hwn gyda'ch ffrindiau? Pam?
7. Ydych chi am ddarllen y llyfr hwn eto?
8. Oeddech chi'n hoffi arddull yr arlunydd? Pam?
9. Petasech chi'n cael cyfarfod yr awdur, beth fyddech chi eisiau ei holi?



Cymru ar y Map – Elin Meek, darluniau gan Valérie Leblond

Cyhoeddwr: Rily

Fformat: Clawr Caled, 355x280 mm, 64 tudalen

Pris: £12.99

ISBN: 9781849670548

Crynodeb

Beth am ddod ar daith drwy Gymru i weld pa mor hyfryd yw ein gwlad ac i ddysgu am ei thrysorau cudd? Mae *Cymru ar y Map* yn llyfr atlas arbennig iawn gyda darluniau godidog sy'n dangos Cymru ar ei gorau.

Am yr awdur

Ganed Elin Meek yn Abertawe ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol y Dderwen ac Ysgol Ramadeg y Merched, Caerfyrddin. Mae wedi addasu toreth o lyfrau i blant ac oedolion dros y blynyddoedd. Hi hefyd yw *Y Ci Mawr Blewog* yn y gyfres Ar Wib, ac *Ennill y Ras* yn y gyfres I'r Byw, ynghyd ag awdur y gyfres boblogaidd Helpwch eich Plentyn. Roedd ei nofel *Ffion a'r Tîm Rygbi* yn y gyfres Ar Wib ar Restr Fer Tir na n-Og yn 2006. Meddai Elin "Pan o'n i'n blentyn, ro'n i'n arfer dwlu ar dreulio'r prynhawn yn darllen mewn sach gysgu gyda phentwr o lyfrau wrth law ... Mae llyfrau wedi bod fel ffrindiau gorau i mi erioed, felly mae'n braf iawn cael addasu ac ysgrifennu llyfrau a gobeithio y bydd ambell lyfr yn ffrind gorau i rywun arall."

Hefyd gan yr awdur


Cyfres Amdani: *C'mon Reff!* (9781784616175)

Cymru ar y Map: Llyfr Cwis (9781849670456)

Cyfres Amdani: *Wynne Evans – O Gaerfyrddin i Go Compare* (9781845216856)

Trafodwch

1. Beth ydych chi'n sylwi am y clawr?
2. Oes yna bethau cyfarwydd yno?
3. Pa fath o bethau hoffech ei ddysgu am Gymru?
4. Rhestrwch ddeg peth rydych wedi ei ddysgu am Gymru wrth ddarllen y llyfr yma.
5. Oedd yna ffeithiau annisgwyl?
6. Beth oedd eich hoff rhan o Gymru wedi i chi ddarllen y llyfr?
7. Pa ddau atyniad yr hoffech ymweld â nhw?
8. Beth yw eich barn am yr arlunwaith?
9. Mae llyfr cwis ar gael i gyd-fynd â'r llyfr hwn. Meddyliwch am 10 cwestiwn cwis i'w cynnwys yn y llyfr.



Fi a Joe Allen – Manon Steffan Ros

Addas i blant 9–12

Cyhoeddwr: Y Lolfa

Fformat: Clawr Meddal, 184x123 mm, 112 tudalen

Pris: £5.99

ISBN: 9781784615673

Crynodeb

Does gan Marc ddim perthynas dda iawn â'i dad, ond mae'r ddau'n mynd efo'i gilydd bob dydd Sadwrn i weld tîm Dinas Bangor yn chwarae pêl-droed. Mae'r bachgen (Marc, ar ôl Mark Hughes) yn datblygu obsesiwn efo Joe Allen, sydd, ym meddwl Marc, yn debyg i'w dad. Mae Marc a'i dad yn mynd ar eu gwyliau cyntaf gyda'i gilydd i Ffrainc i weld Cymru'n chwarae, a dyma lle mae'r ddau yn dod i adnabod ei gilydd yn iawn.

Am yr awdur

Mae Manon yn awdur, dramodydd ac awdur gemau llawn amser. Mae wedi ysgrifennu dros ugain o lyfrau, ac wedi ennill Gwobr Tir na n-Og deirgwaith (*Trwy'r Tonnau* yn 2010; *Prism* yn 2012 a *Pluen* yn 2017). Mae'n dod o Riwlas, Dyffryn Ogwen, yn wreiddiol ond mae bellach yn byw yn Nhywyn.

Hefyd gan yr awdur


Mis yr Ŷd (9781845217006)

Llyfr Glas Nebo (9781784616496)

Pluen (9781784613181)

Trafodwch

1. Beth yw eich barn am y clawr?
2. Oes gan y stori ddechrau da?
3. Oes gan y stori ddiweddglo da?
4. Oeddech chi'n hoffi'r arddull (*style*)?
5. A wnaeth y stori wneud i chi deimlo'n gyffrous, yn ofnus neu wneud i chi chwerthin?
6. Oeddech chi am barhau i'w darllen er mwyn gwybod beth oedd yn digwydd nesaf?
7. Beth oeddech chi'n ei feddwl o'r cymeriadau?
8. Ydych chi eisiau trafod y llyfr hwn gyda'ch ffrindiau? Pam?
9. Ydych chi am ddarllen y llyfr hwn eto?
10. Petasech chi'n cael cyfarfod yr awdur, beth fydddech chi eisiau ei holi?



Gwenwyn a Gwasgod Felen – Haf Llewelyn

Addas i 9–12 oed

Cyhoeddwr: Gwasg Carreg Gwalch

Fformat: Clawr Meddal, 198x128 mm, 152 tudalen

Pris: £6.99

ISBN: 9781845276508

Crynodeb

Mae'r nofel hanesyddol hon wedi ei lleoli yn Llanuwchllyn yn yr 1860au. Mae'n dilyn brawd a chwaer sydd wedi'u gadael yn amddifad – Daniel a Dorothy – ac yn eu dilyn wrth iddynt frwydro i oroesi, a byw bywyd o ddydd i ddydd. O'r diwedd mae pethau'n dechrau gwella i'r ddau wrth i Dorothy gael swydd fel morwyn a Daniel yn cael gwaith yn apothecari Mr Thomas. Ond wedi ei guddio ymysg y poteli a'r jariau diniwed mae potel fach o wenwyn ...

Am yr awdur

Magwyd Haf Llewelyn ar fferm fynyddig yn Ardudwy ond mae'n byw yn Llanuwchllyn ers bron i ddeng mlynedd ar hugain bellach. Mae'n awdures nofelau i oedolion ac i blant – enillodd *Diffodd y Sêr* wobr Tir na n-Og yn 2014. Mae hefyd yn barddoni.

Hefyd gan yr awdur


Cyfres yr Onnen: *Diffodd y Sêr* (9781847716972)

Cyfres Roli Poli: *Deri Dan y Daliwr Dreigiau* (9781785621734)

Cyfres Lolipop: *Diwrnod Ofnadwy* (9781848519084)

Trafodwch

1. Beth yw eich barn am y clawr?
2. Oes gan y stori ddechrau da?
3. Oes gan y stori ddiweddglo da?
4. Oeddech chi'n hoffi'r arddull (*style*)?
5. Pa gymeriad yn y stori yw'r un mwyaf cofiadwy, a pham?
6. Oes angen credu mewn ysbrydion i fwynhau'r stori hon?
7. A fuasech wedi hoffi byw yn y cyfnod yma yng Nghymru?
8. Ydych chi am ddarllen y llyfr hwn eto?
9. Petasech chi'n cael cyfarfod yr awdur, beth fydddech chi eisiau ei holi?



Cyfres Yma: Hadau – Lleucu Roberts

Addas i oedolion ifanc

Cyhoeddwr: Y Lolfa

Fformat: Clawr Meddal, 194x130 mm, 192 tudalen

Pris: £6.99

ISBN: 9781784616533

Crynodeb

Mae *Hadau* wedi ei gosod yn y dyfodol ar ôl i fom niwcliar ddinistrio gorllewin Ewrop. Roedd Cymry wedi sefydlu cymuned ar ynys ger Norwy, a Cai a Gwawr wedi eu magu yno. Maen nhw erbyn hyn wedi cyrraedd tref Aberystwyth yn yr henwlad (Cymru) ac yn dod o hyd i lwyth cyntefig sydd â'u stôr o fwyd a hadau i dyfu cnydau yn prysur ddirwyn i ben.

Am yr awdur

Mae gwreiddiau'r awdur yn Sir Aberteifi ond mae bellach yn byw yn Rhostryfan. Bu'n olygydd yn y Lolfa am gyfnod ac erbyn hyn mae hi'n gwneud bywoliaeth o ysgrifennu nofelau a sgriptio ar gyfer y radio a'r teledu. Mae hi wedi ennill gwobr Tir na n-Og ar sawl achlysur, ac enillodd Wobr Goffa Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr 2014 – yr unigolyn cyntaf i gipio'r ddwy brif wobr ryddiaith yn yr un flwyddyn.


Hefyd gan yr awdur

Cyfres Yma: *Yr Ynys* (9781784615031)

Cyfres Mellt: *Pedwar* (9781847716484)

Trafodwch

1. Oes rhaid byw yn ardal Aberystwyth i werthfawrogi'r stori?
2. Oedd thema'r nofel am newid hinsawdd yn gwneud i chi boeni am y dyfodol?
3. Oes angen darllen y llyfr cyntaf o'r drioleg i fwynhau'r nofel yma?
4. Pa ran o'r stori wnaeth wneud i chi deimlo'n gyffrous?
5. Beth yw eich barn am y clawr?
6. Oes gan y stori ddechrau da?
7. Oes gan y stori ddiweddglo da?
8. Ydych chi eisiau trafod y llyfr hwn gyda'ch ffrindiau? Pam?
9. Ydych chi am ddarllen y llyfr hwn eto?
10. Petasech chi'n cael cyfarfod yr awdur, beth fydddech chi eisiau ei holi?



Lliwiau Byd Natur – Luned Aaron

Addas i blant dan 5 oed

Cyhoeddwr: Gwasg Carreg Gwalch

Fformat: Clawr Caled, 217x215 mm, 48 tudalen

Pris: £5.95

ISBN: 9781845276386

Crynodeb

Mae saith lliw yn yr enfys, ond yng nghist ei thrysor mae lliwiau lu! Faint o'r lliwiau hyn wyt ti'n eu hadnabod? Tyrd i ddysgu am liwiau wrth fynd am dro lliwgar gyda Mam a Dad drwy luniau hardd y gyfrol hon.

Am yr awdur

Daw Luned yn wreiddiol o Fangor, ac mae bellach wedi ymgartrefu yn yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd gyda'i gŵr Huw a'u dwy ferch fach, Eos ac Olwen. Enillodd Wobr Tir na n-Og yn 2017 am ei chyfrol cyntaf i blant, *123 Byd Natur*.


Hefyd gan yr awdur

123 Byd Natur (9781845276485)

ABC Byd Natur (9781845275846)

Trafodwch

1. Beth ydych chi'n sylwi am y clawr?
2. Ydi'r ddelwedd yn addas? Pam?
3. I bwy mae'r llyfr yma'n addas? Pam?
4. Beth yw eich barn am yr arlunwaith?
5. Petasech chi'n cael cyfarfod yr awdur, beth fydddech chi eisiau ei holi?
6. Fydddech chi'n hoffi newid unrhyw beth am y llyfr? Beth?
7. Pa bynciau eraill hoffech chi eu gweld yn y gyfres?
8. Pa luniau fydddech chi'n eu cynnwys yn y llyfr?
9. Sut fydddech chi'n mynd ati i greu'r lluniau?



Llyfr Glas Nebo – Manon Steffan Ros

Addas i oedolion ifanc

Cyhoeddwr: Y Lolfa

Fformat: Clawr Meddal, 194x130 mm, 144 tudalen

Pris: £8.99

ISBN: 9781784616496

Crynodeb

Dyma stori ryfeddol Siôn, a orfodwyd i dyfu'n ddyn yn sydyn iawn, ei fam Rowenna, a'i chwaer fach, Dwynwen. Mae'r hanes hynod wedi'i gofnodi mewn llyfr nodiadau glas wrth geisio goroesi ar ôl Y Terfyn – yr hunllef a gafodd effaith ddychrynlyd ar drigolion pentref Nebo a thu hwnt.

Am yr awdur

Mae Manon yn awdur, dramodydd ac awdur llawn amser. Mae wedi ysgrifennu dros ugain o lyfrau, ac wedi ennill Gwobr Tir na n-Og deirgwaith (*Trwy'r Tonnau* yn 2010; *Prism* yn 2012 a *Pluen* yn 2017). Mae'n dod o Riwlas, Dyffryn Ogwen, yn wreiddiol ond mae bellach yn byw yn Nhywyn.

Hefyd gan yr awdur

Mis yr Yd (9781845217006)

Fi a Joe Allen (9781784615673)

Pluen (9781784613181)

Trafodwch

1. Beth yw eich barn am y clawr?
2. Oes gan y stori ddechrau da?
3. Oes gan y stori ddiwedd glo da?
4. Oeddech chi'n hoffi'r arddull (*style*)?
5. Pa ran o'r stori wnaeth wneud i chi deimlo'n ofnus?
6. Beth fuasech chi'n ei golli o orfod byw heb foethuswrydd wedi'r 'Terfyn'?
7. Beth oeddech chi'n feddwl o'r cymeriadau?
8. Ydych chi eisiau trafod y llyfr hwn gyda'ch ffrindiau? Pam?
9. Ydych chi am ddarllen y llyfr hwn eto?
10. Petasech chi'n cael cyfarfod yr awdur, beth fydddech chi eisiau ei holi?